ELLIS, THOMAS (1625 - 1673), offeiriad a hynafiaethydd

Enw: Thomas Ellis
Dyddiad geni: 1625
Dyddiad marw: 1673
Rhiant: Margaret ferch Ellis Wynn ap Robert
Rhiant: Griffith Ellis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Thomas Richards

Mab Griffith Ellis o Ystumllyn ger Cricieth. Cafodd ei addysg yn Rhydychen, lle y daeth yn gymrawd o Goleg Iesu. Yr oedd yn aelod o'r coleg pan ddaeth y profwyr Piwritanaidd yno yn 1648; pan ofynnwyd iddo a oedd am ymostwng i awdurdod y Senedd yn rhin ymweliad y profwyr, dywedodd na fedrai heb beryglu daioni ei enaid. Yn ddiweddarach ymostyngodd, penodwyd ef yn gymrawd yr ail waith yn 1649, cafodd swydd 'Censor' yn ogystal, ac yr oedd ar y pen blaen yn ymosod ar Dr. Michael Roberts, y prifathro newydd a'r rhagrithiwr Piwritanaidd. Yn 1660 adferwyd yr hen brifathro, Francis Mansell, a phenodwyd Ellis yn is-brifathro. Siomwyd ef yn fawr na chafodd le Mansell yn 1661, ac anaml y gwelid ef o gylch y coleg. Ar ôl marw Dr. John Ellis, perthynas iddo yn ôl pob hanes, penodwyd ef yn rheithor Dolgellau yn 1666, ac yno y bu hyd ei farwolaeth yn 1673. Yr oedd i Ellis enw uchel fel hynafiaethydd, a dyfnheid yr argyhoeddiad hwnnw gan y wybodaeth ei fod yn gyfaill mawr â Robert Vaughan o'r Hengwrt. Yn anffodus, cymylwyd llawer ar yr enw hwn yn ystod ei fywyd ef ei hun, gan ei resymau tila dros beidio â chyhoeddi argraffiad newydd o *Historie* Dr. David Powell, a oedd yn barod ganddo; yn ein hoes ni (drwy farn y diweddar Syr John Edward Lloyd) cymylwyd mwy ar ei enw da gan y gred nad ef oedd gwir awdur y*Memoirs of Owen Glendower*, a briodolid iddo, ond Robert Vaughan - mai copïwr yn unig oedd Ellis, neu arolygwr ar y gorau.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 265

Jesus College Manuscripts

Hardy, *Jesus College* (1899), 121-4, 129-30

M. Burrows, *The Register of the Visitors of the University of Oxford, 1647â€“58* (1881), 99-100

Wynne MSS. (All Souls) 239 (578), 240 (512-6)

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1922-3, 1-110

J. E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dwr* (Oxford 1931), 147-9

Gweithiau

John Price, Caradog o Lancarfan, Humphrey Llwyd (gol.), David Powell (gol.), Thomas Ellis (gol.), Robert Vaughan (gol.), *A description of Wales* (Oxford 1663)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 48049531

Wikidata: Q7789331

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Richards, T., (1953). ELLIS, THOMAS (1625 - 1673), offeiriad a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ELLI-THO-1625

Copïo ir clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government